**EITEM AR YR AGENDA: 10**

**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**10fed o Fai 2010**

**SAFON CYRRAEDD**
**PEIRIANNAU YSGOL AC ESGYNLAWR (PEIRIANNAU ALP)**

**Adroddiad gan Paul Claydon, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**

## Diben yr Adroddiad

1 Ceisio penderfyniad gan yr Aelodau ynglŷn â ph'un ai i ailedrych ar y safon cyrraedd 20 munud a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod mewn perthynas â'r peiriannau ALP.

## Cyflwyniad

2 Peiriannau arbenigol yw'r peiriannau ALP sydd, yn yr amgylchiadau priodol, yn caniatáu i ddiffoddwyr tân fynd i mewn ac allan o lefelau uchaf adeiladau, yn darparu esgynlawr gweithio ar uchdwr, cyfeintiau mawr o ddŵr trwy fonitor ar gyfer diffodd tân, a gallu cyfyngedig i achub.

3 Ar hyn o bryd, mae gan y Gwasanaeth bedwar peiriant ALP, sef ym Mangor, Llandudno, y Rhyl a Wrecsam, i gwrdd â'r safon cyrraedd 20 munud sy'n berthnasol i'r ardaloedd risg perthnasol hyn.

## Cefndir

4 Ers uno Gwasanaethau Tân Clwyd a Gwynedd yn 1996, i greu Gogledd Cymru, mae'r cwestiwn ynglŷn â pheiriannau ALP wedi ei roi gerbron yr Awdurdod ddwywaith ar adeg cael peiriannau newydd.

5 Roedd y tro cyntaf yn 2002, ac yna yn 2005 fel rhan o drydydd cynllun gweithredu Cynllun Integredig Rheoli Risg yr Awdurdod,

sef "Cynnal y Momentwm". Fodd bynnag, cydnabuwyd y ddau dro, y byddai lleihau nifer y peiriannau cyrraedd yn uchel yn gofyn am newid y safon cyrraedd presennol a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod, sef o 20 munud i 30 munud.

6 Gwrthodwyd newid y safon yn 2006 wedi ymgynghoriad cyhoeddus, ond gofynnodd yr Aelodau i'r cwestiwn hwn ddod gerbron yr Awdurdod eto pan fyddai angen peiriant newydd.

7 Bydd y peiriant sydd yng ngorsaf dân Wrecsam yn dod i ddiwedd ei oes yn 2012. Mae hyn yn gyfle i'r Aelodau edrych eto ar y safon cyrraedd, fel y penderfynodd yr Awdurdod yn 2006.

## Y Sefyllfa Bresennol

8 Bydd yr Aelodau'n cofio'r wybodaeth helaeth a ddarparwyd iddynt ynglŷn â'r peiriannau, sef trwy gyflwyniadau ar gefndir y mater, y modd y mae'r adnawdd wedi cael ei ddefnyddio, y goblygiadau i'r gyllideb refeniw o brynu peiriant newydd, a'r gost a ragwelir o gael un newydd, sef tua £600,000.

9 I gynnal yr amseroedd cyrraedd o 20 munud, mae'n rhaid cael pedwar peiriant ALP. I fabwysiadu amser cyrraedd o 30 munud, byddai gofyn cael 3 peiriant ALP i barhau i gyflawni dyletswydd yr Awdurdod i gwrdd ag anghenion gweithredol cyfredol y Gwasanaeth.

## Argymhellion

10 Bod yr Aelodau'n ystyried yr opsiynau canlynol, sef naill ai:-

a) Cefnogi'r safon cyrraedd presennol, sef 20 munud, ac o ganlyniad, gymeradwyo caffael peiriant ALP newydd; neu

b) Argymell i'r Awdurdod newid y safon cyrraedd i 30 munud, ac o ganlyniad, beidio â chaffael peiriant ALP newydd.

11 Petai'r Aelodau yn dewis opsiwn b) fe allent fod yn dymuno ystyried y lleoliadau priodol ar gyfer y 3 peiriant ALP sydd ar ôl, gan fod adleoli'r adnoddau presennol yn debygol o fod yn ofyniad gweithredol er mwyn cwrdd â'r safon newydd a fabwysiedir.